

# Cronfa Addysg ar gyfer Dinbych a'r Cyffiniau

Meini Prawf Cyllid: Unigolion



Mae'r Gronfa Addysg ar gyfer Dinbych a'r ardal gyfagos yn cefnogi addysg unigolion a mentrau addysgol penodol.

Mae'r gronfa yn gofyn am geisiadau gan:

- Prosiectau cynhwysiant addysg gyda chymorth i fyfyrwyr unigol rhwng 11 a 25 oed ar ffurf bwrsariaethau, ysgoloriaethau, cymorth teithio, diwylliant, chwaraeon, gwobrau am gyrhaeddiad a deunyddiau/offer addysgol (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr)

## Grantiau ar gael

Gall unigolion wneud cais am grantiau o hyd at £500.

## Pwy all wneud cais?

Mae myfyrwyr rhwng 11 a 25 oed sydd ar hyn o bryd yn byw yn llawn amser yn nhref Dinbych ac ardaloedd Cyngor Cymuned Nantglyn, Henllan, Bodfari, Aberwheeler, Llandyrnog, Llanrhaeadr yng Nghinmerch, Llanynys, Llanefydd a Llansannan, ar yr amod nad yw'r cais i gwmpasu gweithgaredd sy'n dod o fewn darpariaeth statudol.

Rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n gallu dangos yn union sut y byddant yn bodloni amcanion a blaenoriaethau'r Gronfa, ac nad ydynt wedi derbyn cefnogaeth gan y Gronfa hon o'r blaen.



## Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

## Cyllid Blwyddyn Lluosog

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i unigolion allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Cymunedol Sir Ddinbych bellach yn cynnig cyfle i unigolion wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid prosiect 1 flwyddyn neu eitem gyfalaf bach.

Rydym yn gobeithio gallu gwneud o leiaf un grant tair blynedd y flwyddyn. I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried am gyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

